Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Arolwg 'Dweud Eich Dweud' y gweithlu 2024



## Crynodeb o ymatebion gan reolwyr

Dyma grynodeb o ymatebion i arolwg 'Dweud Eich Dweud' y gweithlu 2024, a holodd weithwyr gofal cymdeithasol am bethau fel eu hiechyd a'u llesiant, tâl ac amodau, a beth maen nhw'n ei hoffi am weithio yn y sector.

Mae'r adroddiad llawn yn rhannu'r canfyddiadau yn dri grŵp o swyddi – gweithwyr gofal, gweithwyr cymdeithasol, a rheolwyr.

Mae'r crynodeb hwn yn rhoi trosolwg o rai o'r prif ganfyddiadau am grŵp y **rheolwyr**.

Mae'r grŵp hwn o ymatebwyr yn cynnwys rheolwyr cartrefi gofal i oedolion (**36 y cant**), rheolwyr gofal cartref (**34 y cant**), rheolwyr gofal preswyl i blant (**11 y cant**) a rheolwyr gofal cymdeithasol eraill (**20 y cant**).

**Gallwch ddysgu rhagor am yr ymchwil a chael mynediad at yr adroddiad llawn yma.**

# Demograffeg



Fe wnaethon ni ddarganfod bod:

y rhan fwyaf o reolwyr rhwng **50 a 54 oed**

**79 y cant** yn fenywaidd a **20 y cant** yn wrywaidd

**89 y cant** yn syth/heterorywiol, **pedwar y cant** yn hoyw neu'n lesbiaidd, a **dau y cant** yn ddeurywiol. Roedd hi'n well gan eraill beidio â dweud

**91 y cant** yn Wyn, **pedwar y cant** yn Ddu, ac **un y cant** yn Asiaidd

**25 y cant** yn dweud bod ganddyn nhw gyflwr hirdymor sydd wedi para 12 mis neu fwy. O'r rhai â chyflwr hirdymor, dywedodd **63 y cant** ohonyn nhw ei fod yn effeithio ar eu gweithredu o ddydd i ddydd

**37 y cant** yn awgrymu eu bod yn ofalwr y tu allan i'r gwaith

**wyth y cant** yn dweud eu bod yn niwrowahanol

**52 y cant** yn dweud eu bod yn gallu siarad o leiaf ychydig o Gymraeg

**27 y cant** yn dweud eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith naill ai drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser

**95 y cant** yn cael eu cyflogi gan sefydliad sy'n darparu gofal cymdeithasol, fel awdurdod lleol, corff trydydd sector neu gwmni preifat. Roedd **dau y cant** yn hunangyflogedig mewn gofal cymdeithasol, a **dau y cant** yn cael eu cyflogi gan asiantaeth

**42 y cant** yn dweud eu bod yn aelod o undeb llafur, gyda'r rhan fwyaf ohonyn nhw yn aelod o Unsain/Unison (**28 y cant**), y GMB (**pump y cant**), neu'r Coleg Nyrsio Brenhinol (**pump y cant**).

# Recriwtio a chadw

Fe wnaethon ni ddarganfod bod:

**70 y cant** wedi dechrau gweithio ym maes gofal cymdeithasol oherwydd eu bod am gael swydd a fyddai'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Teimlai **43 y cant** y bydden nhw'n ei fwynhau, **37 y cant** y byddai'n addas i'w sgiliau, ac aeth **21 y cant** i'w rôl o ganlyniad i brofiad personol gofalu am rywun. Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un rheswm

**44 y cant** wedi dod i wybod am weithio ym maes gofal cymdeithasol trwy ffrindiau a theulu sy'n gweithio yn y sector, **30 y cant** trwy hysbysebu ar-lein, a **naw y cant** trwy ffeiriau neu gwmnïau recriwtio, neu gyngor gyrfaol

**24 y cant** yn anelu at adael y sector, ymhen **16 mis** ar gyfartaledd.



# Arweinyddiaeth, hyfforddiant a datblygiad



Fe wnaethon ni ddarganfod bod:

**65 y cant** eisiau rôl arwain yn y dyfodol

**80 y cant** o'r farn ei bod yn bosibl iddyn nhw ddod yn arweinydd

**46 y cant** wedi ceisio camu ymlaen yn y flwyddyn ddiwethaf

**32 y cant** yn teimlo bod angen mwy o hyfforddiant i symud ymlaen yn eu gyrfa

**92 y cant** o'r farn bod ganddyn nhw ddigon o hyfforddiant i wneud eu swydd yn dda, ac **88 y cant** o'r farn eu bod yn cael digon o hyfforddiant i gyflawni gofynion DPP

**69 y cant** yn teimlo nad oes ganddyn nhw unrhyw broblemau o ran cael gafael ar hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith.





# Bwlio, gwahaniaethu ac aflonyddu

Yma, rydyn ni'n cyflwyno canran y rheolwyr a ddywedodd eu bod wedi profi bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu o wahanol ffynonellau yn y 12 mis diwethaf.

**Gan reolwyr:** Bwlio (**saith y cant**), gwahaniaethu (**dau y cant**), aflonyddu (**pedwar y cant**). O'r rhai a ddywedodd eu bod wedi profi unrhyw un o'r rhain gan reolwr, roedd **49 y cant** wedi rhoi gwybod amdano, dywedodd **pedwar y cant** fod cydweithiwr wedi rhoi gwybod amdano, a theimlai **24 y cant** o'r rhai a ddywedodd eu bod wedi rhoi gwybod bod eu pryder wedi'i drin mewn ffordd foddhaol.

**Gan gydweithwyr:** Bwlio (**saith y cant**), gwahaniaethu (**dau y cant**) aflonyddu (**pedwar y cant**). O'r rhai a ddywedodd eu bod wedi profi unrhyw un o'r rhain gan gydweithiwr, roedd **65 y cant** wedi rhoi gwybod amdano, dywedodd **pedwar y cant** fod cydweithiwr wedi rhoi gwybod amdano, a theimlai **36 y cant** o'r rhai a ddywedodd eu bod wedi rhoi gwybod bod eu pryder wedi'i drin mewn ffordd foddhaol.

**Gan bobl maen nhw'n eu cynorthwyo neu eu teulu:** Bwlio (**chwech y cant**), gwahaniaethu (**dau y cant**), aflonyddu (**wyth y cant**). O'r rhai a ddywedodd eu bod wedi profi unrhyw un o'r rhain gan bobl maen nhw'n eu cynorthwyo neu eu teulu, roedd **82 y cant** wedi rhoi gwybod amdano, dywedodd **dau y cant** fod cydweithiwr wedi rhoi gwybod amdano, a theimlai **58 y cant** o'r rhai a ddywedodd fod y mater wedi'i godi ei fod wedi'i drin mewn ffordd foddhaol.

Fe wnaethon ni ddarganfod hefyd bod **89 y cant** yn teimlo bod eu cyflogwr wedi gweithredu'n deg mewn penderfyniadau am symud ymlaen yn eu gyrfa a dyrchafu, yn gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig.

# Cyflog, telerau ac amodau

Fe wnaethon ni ddarganfod bod:

**77 y cant** yn hapus â'u telerau ac amodau

**35 y cant** yn anfodlon â'u tâl

**tri y cant** yn cael eu cyflogi ar gontract dim oriau. O'r rhai a oedd ar gontract o'r fath, awgrymodd **79 y cant** y byddai'n well ganddyn nhw fod ar gontract oriau sefydlog neu oriau rheolaidd

**54 y cant** wedi awgrymu eu bod yn 'byw'n gyfforddus' neu'n 'gwneud yn iawn' yn ariannol, **33 y cant** 'dim ond yn llwyddo o drwch blewyn i dalu am bopeth angenrheidiol', ac **13 y cant** yn ei chael hi'n 'eithaf' anodd neu'n 'anodd iawn' ymdopi'n ariannol

**67 y cant** naill ai yn ei chael hi'n 'llawer' neu 'ychydig' yn fwy anodd ymdopi'n ariannol o gymharu â'r llynedd, a **saith y cant** naill ai 'ychydig' yn haws neu'n 'llawer' haws.



# Iechyd a llesiant



Fe wnaethon ni asesu llesiant y gweithlu gan ddefnyddio ONS4 – pedwar mesur sy'n cael eu defnyddio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n defnyddio graddfa rhwng sero a 10. Cymharon ni'r ymateb cyfartalog o'r arolwg hwn gyda chyfartaledd y DU ar gyfer pob mesur. Mae pob un o'r canfyddiadau isod yn waeth na chyfartaledd y DU:

**Boddhad â bywyd: 6.48** (Cyfartaledd y DU: 7.45)

**Mae bywyd yn werth chweil: 7.00** (Cyfartaledd y DU: 7.73)

**Hapusrwydd ddoe: 6.76** (Cyfartaledd y DU: 7.39)

**Gorbryder: 4.64** (Cyfartaledd y DU: 3.23)

Gofynnon ni gwestiynau eraill am lesiant hefyd. Fe wnaethon ni ddarganfod:

bod **78 y cant** yn teimlo bod eu morâl yn dda

bod **74 y cant** yn teimlo eu bod yn cael trafferth peidio meddwl am y gwaith ar ôl gorffen

bod **50 y cant** yn teimlo bod ganddyn nhw ddigon o gefnogaeth i ddelio â straen

mai llwyth gwaith (**55 y cant**), gwaith papur neu faich gweinyddol (**46 y cant**), a phoeni am bethau'r tu allan i'r gwaith (**27 y cant**) oedd prif achosion straen

bod **57 y cant** wedi awgrymu eu bod wedi mynd i'r gwaith o leiaf ddwywaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er eu bod mor sâl y dylen nhw fod wedi aros gartref.

# Amodau gweithio



Fe wnaethon ni ddarganfod bod:

**83 y cant** yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan eu rheolwr

**86 y cant** yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan eu cydweithwyr

**65 y cant** wedi awgrymu bod ganddyn nhw'r staff cywir i ddarparu gwasanaethau

**81 y cant** yn teimlo eu bod yn gallu bodloni anghenion y bobl maen nhw'n gofalu amdanyn nhw ac yn eu cynorthwyo.

Gofynnon ni hefyd faint yr oedd pobl yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y gwahanol grwpiau maen nhw'n rhyngweithio â nhw. Fe wnaethon ni ddarganfod bod:

**83 y cant** yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu rheolwr

**84 y cant** yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu cydweithwyr

**79 y cant** yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y bobl maen nhw'n eu cynorthwyo

**58 y cant** yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan asiantaethau partner

**41 y cant** yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y cyhoedd.

Cafodd yr arolwg hwn ei gynnal ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru gan ymchwilwyr yn Bath Spa University a Buckinghamshire New University, a chydweithwyr o Gymdeithas Brydeinig y Gweithwyr Cymdeithasol (BASW).

**Ffynonellau:**

- cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/bulletins/measuringnationalwellbeing/april2022tomarch2023